Gyferbyn: Pennies From Heaven

Cynnyrch Cymru

Un o feibion mabwysiedig Manceinion yw RTD, fel mae gwylwyr selog Doctor Who yn ei adnabod, ac er bod y lle sy'n gartref i'w gasgliad o fideos Doctor Who wedi llywio'i farn ar y byd, mae hefyd yn ystyried Cymru yn gartref iddo, ac mae'n falch dros ben o 'Gynnyrch Cymru'. Ei uchelgais fu gweld BBC Cymru yn datblygu'n ganolfan rhagoriaeth ar gyfer drama, gyda sylfaen digon cadarn i oroesi pan ddaw unrhyw gyfres benodol i ben.

Russell T Davies

Teledu oedd byd fy nychymyg fel plentyn yn Abertawe. Roeddwn i'n wyliwr brwd: ac er mai athrawon oedd fy rhieni, doedden nhw byth yn sensro rhaglenni, felly, byddwn yn ymuno â'm dwy chwaer hŷn i wylio popeth o gartwnau i operâu sebon a drama wych Dennis Potter, *Pennies From Heaven*. Cefais fy ngwefreiddio ganddi, yn fachgen 12 neu 13 oed ar y pryd. Roedd *Doctor Who* – fel y gŵyr pawb erbyn hyn – yn ffefryn mawr arall ers pan oeddwn yn dair oed. Mae'r penodau a welais wedi'u serio yn y cof am byth, ac rwyf hyd yn oed yn cofio ambell bennod sydd wedi hen ddiflannu o'r archifau erbyn hyn.

Felly, pan ddychwelais adref i Gymru ar ôl bod yn y brifysgol, ac ymhél â'r theatr am sbel, nid yw'n syndod i mi benderfynu dilyn gyrfa ym myd teledu, ac ymuno â'r BBC yng Nghaerdydd. Ond roedd problem. Rwy'n Gymro di-Gymraeg – er mawr gywilydd i mi, ac roedd hynny heb os yn anfantais fawr yn adran rhaglenni plant BBC Cymru 20 mlynedd yn ôl. Rhaglenni Cymraeg oedd yn cael eu cynhyrchu yno'n bennaf, ac yn anffodus, roeddwn i'n rhy ddiog i drafferthu dysgu'r iaith ar y

‘Mae’n werth symud o’r canol, ac osgoi bod dan fawd a llygad barcud y comisiynydd wrth ffilmio a golygu’r cynhyrchiad.’

pryd. Felly, roedd rhaid i lanc ifanc brwdfrydig dan anfantais ieithyddol chwilio am yrfa yn rhywle arall.

Yn wahanol i’r rhan fwyaf o bobl y BBC, es i *ddim* i Lundain. Roedd Manceinion wedi datblygu’n lle cyffrous i wneud rhaglenni plant, felly symudais yno – ac aros yno. Dechreuodd fy ngyrfa ysgrifennu godi stêm, gadewais y BBC am Granada, a symud o raglenni plant i ddrama oedolion. Ond fe arhosais ym Manceinion o hyd.

Yn anorfod, mae ble bynnag rydych chi’n cadw’ch casgliad o fideos *Doctor Who* yn dylanwadau ar eich dehongliad o’r byd. Roedd stamp ac acen Manceinion ar lawer o’m gwaith ysgrifennu bryd hynny. Bob tro byddwn i’n mynd adref i weld teulu Abertawe, roedd patrymau sgwrsio’r Cymry yn fy nharo i’n syth; yn soniarus, llawn hiwmor, agos-atoch. Dechreuais dreulio llawer mwy o amser yno yn 2001 pan roedd fy mam yn marw o ganser, a magu’r awydd i ysgrifennu ag acen Gymreig. Y canlyniad oedd *Mine All Mine* gyda Griff Rhys Jones, cyfres chwe phennod ar gyfer ITV wedi’i chynhyrchu ym Manceinion a’i lleoli yn Abertawe, am deulu a oedd, wrth edrych yn ôl, yn debyg iawn i’r teulu o Gymru yn Gavin and Stacey. Aflwyddiannus fu’r gyfres, yn anffodus, ond dechreuodd pobl ddweud pethau hollol hurt ac afresymol fel: ‘Wel, mae’n profi nad yw’r acen Gymreig yn llwyddo ar deledu.’ Roeddwn i’n fwy penderfynol fyth o’u profi’n anghywir wedyn.

Er nad oedd y duwiau wedi gwenu’n glên ar *Mine All Mine,* roedd pethau’n dechrau edrych dipyn mwy addawol ar ôl i mi feithrin cysylltiad proffesiynol â Julie Gardner wrth gynhyrchu *Casanova*. Roedd hi’n bleser gweithio gyda hi. Felly pan gafodd Julie ei phenodi’n Bennaeth Drama yng Nghymru, roedd hi’n beth naturiol inni feddwl am brosiectau ar y cyd. Roeddwn i eisoes wedi dweud wrth y BBC bod gennyf ddiddordeb mewn adfywio *Doctor Who*. Mewn sawl ffordd, efallai y byddai fy mywyd dipyn haws petai’r gyfres wedi’i chynhyrchu ym Manceinion, sef fy nghartref erbyn hyn. Er hynny, roeddwn wrth fy modd yn cael cyfle i ddychwelyd at fy ngwreiddiau. Yn fuan wedyn, sylweddolais fod angen ymrwymo’n llawn i’r fenter bob awr o’r dydd er mwyn gwireddu ein gobeithion. Byddai’n golygu byw a bod yng Nghaerdydd, felly prynais fflat yn y Bae.

Casanova

Yn fy marn i, mae’r gwylwyr yn gweld llawer gormod o Lundain ar y sgrin. Mae’n werth symud o’r canol, ac osgoi bod dan fawd a llygad barcud y comisiynydd wrth ffilmio a golygu’r cynhyrchiad. Mae’n llawer haws datblygu tîm brwdfrydig mewn llefydd ar y ‘cyrion’ fel Manceinion a Chaerdydd, a’r rheiny’n dîm dipyn mwy ymroddgar na chriwiau Llundain yn aml. Mae awyrgylch arbennig yn perthyn i *Doctor Who* a *Torchwood* gan eu bod yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Mae’r criwiau wrth eu boddau’n gweithio arnynt, ac yn falch o’r cyfle a’r bri sy’n gysylltiedig â gweithio ar gyfresi’r rhwydwaith. Hefyd, mae pobl Caerdydd a chyngor y ddinas wedi estyn croeso cynnes iawn i’r sioeau hyn sy’n pontio sawl cenhedlaeth. Mae trigolion Caerdydd yn falch fod eu dinas yn ymddangos ar sgriniau teledu’r DU yn ogystal â’r Eidal, Canada, Awstralia, Corea -ledled y byd, mewn gwirionedd. Mae fel petai aelod o’r teulu wedi llwyddo mewn maes arbennig, rhywbeth y gall pawb ymfalchïo ynddo, o neiniau a theidiau i’r plant lleiaf, ac mae teimlad arbennig o berthyn a pherchnogaeth o’r hyn sydd ar y sgrin.

Does dim modd gosod pob pennod o *Doctor Who* yng Nghaerdydd. Ond os ydych chi'n cynhyrchu sioe mewn dinas arbennig, rwy'n credu y dylech ddangos y ddinas honno i'r eithaf. Byddwn i'n edrych ar ddyfroedd Bae Caerdydd trwy ffenestr fy fflat, neu'n cerdded heibio Canolfan y Mileniwm a'r tŵr dŵr uchel, gan wybod fy mod eisiau dangos a defnyddio'r llefydd hyn ar y sgrin – fel roeddwn i'n benderfynol o ffilmio *Queer As Folk* ar stepen y drws ym Manceinion. Un ysbrydoliaeth ar gyfer *Torchwood* oedd cyfle i osod cyfres gyfan yng Nghaerdydd, gyda chast a chriwiau ac acenion Cymreig – felly mae tîm Capten Jack yn gweithio o grombil Canolfan y Mileniwm, gyda lifft yn codi i'r brig ger y ffownten ddŵr yn Roald Dahl Plass. Maen nhw'n mwynhau bwyta a chymdeithasu yng Nghei'r Forforwyn neu Ardal yr Hen Fragdy, ac yn sefyll ar doeau Neuadd y Ddinas a fflatiau Alto Lusso. Mae gwefan swyddogol Caerdydd i ymwelwyr yn cynnwys mapiau o leoliadau ffilmio *Torchwood* a *Doctor Who*. Ac mae un gwesty mentrus yn bachu ar bob cyfle trwy gynnig gwyliau *Doctor Who* i deuluoedd, ynghyd â Dalek i goroni'r daith!

Y cymhelliant arall dros greu Torchwood, a'r chwaer sioeau eraill fel *The Sarah-Jane Adventures*, oedd sicrhau hirhoedledd yr adran ddrama. Does dim pwynt cael un gyfres lwyddiannus yn unig: un diwrnod, bydd *Doctor Who* yn diflannu oddi ar ein sgriniau eto, oherwydd dyna natur teledu. Gallai barhau am 10 neu 20 mlynedd arall, ond os mai hon yw'r unig gyfres a

Gyferbyn: *James Strong, Cyfarwyddwr,* Doctor Who, *tu ôl i'r llenni.*

'Ein huchelgais ni oedd sicrhau bod BBC Cymru yn cael ei chydnabod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer drama, gyda seiliau digon cadarn i barhau a goroesi pan ddaw un gyfres i ben, neu wedi i ni adael.'

‘Os ydych chi’n cynhyrchu sioe mewn dinas arbennig, rwy’n credu y dylech ddangos y ddinas honno i’r eithaf.’

gynhyrchir gan yr adran, yna gallai diwedd cyfres olygu diwedd dramâu teledu o Gymru. Byddai hynny’n anffodus ac yn annheg iawn. Fe greodd arbenigedd ac agwedd broffesiynol y criwiau a’r cyfleusterau cynhyrchu, mewnol a llawrydd, argraff ddofn arnaf i a Julie. Dyma le oedd yn haeddu diwydiant drama ffyniannus. Felly, ein huchelgais ni oedd sicrhau bod BBC Cymru yn cael ei chydnabod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer drama, gyda seiliau digon cadarn i barhau a goroesi pan ddaw un gyfres i ben, neu wedi i ni adael.

Gadael yw hanes Julie a minnau bellach, gyda dyfodol y ddrama deledu yng Nghaerdydd yn fwy sicr nag erioed. Yn ogystal â’r chwaer-gyfresi eraill a grëwyd gennym, dramâu Cymraeg a Saesneg fel *Pobol y Cwm* a *Belonging*, a’r ffaith fod *Casualty* ar y ffordd, mae swyddi i filoedd o bobl yma. Oll wedi’u hadeiladu ar seiliau cadarn iawn, nid yn unig gennym ni, ond diolch i waith caled cannoedd o bobl sydd wedi ymdrechu i adfywio’r diwydiant yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd diwethaf.

Bae Caerdydd

A’m fflat ym Mae Caerdydd? Dyma lle rwyf wedi treulio oriau di-ri’n syllu dros y dŵr, yn myfyrio am Gapten Jack a’r Doctor, a meddwl am syniadau newydd – ac er fy mod i’n ystyried fy hun yn un o bobl fabwysiedig Manceinion, mae fan hyn yn gartref i mi hefyd. Mae ‘Cynnyrch Cymru’ yn destun balchder personol iawn i mi. ■

Ganed Russell T Davies yn Abertawe. Ar ôl rhoi’r gorau i freuddwyd ei blentyndod o fod yn arlunydd comics Marvel, astudiodd Lenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Worcester, Rhydychen, cyn dychwelyd i weithio yn y theatr yng Nghymru. Ymunodd wedyn â BBC Cymru yng Nghaerdydd, gan ddod yn gyfarwyddwr rhaglen blant o’r enw *Why Don’t You* a dechrau ysgrifennu pytiau o ddramâu byrion ar ei chyfer. Yna, aeth i weithio i Adran Rhaglenni Plant y BBC ym Manceinion. Cyn hir, roedd yn prysur sgriptio ac ysgrifennu dramâu yn sgil llwyddiant cyfres ddrama i blant, *Dark Season*, a oedd yn cynnwys merch ifanc o’r enw Kate Winslet. Ym 1999, cafodd glod a bri am *Queer As Folk* (Channel 4), cyfres wedi’i gosod ym Manceinion am griw o ffrindiau hoyw yn eu hugeiniau a thridegau. Cafodd lwyddiant pellach gyda *Bob and Rose* (ITV), gydag Alan Davies a Lesley Sharp, a *Casanova* (BBC), gyda David Tennant yn y brif ran. Yn 2005, dychwelodd RTD, fel y mae dilynwyr *Doctor Who* yn ei adnabod, i Gymru i ysgrifennu a chynhyrchu *Doctor Who*.